# CRYNODEB O'R SESIWN HYFFORDDIANT AR GYFER CYDLYNWYR DIOGELU LLEOL

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel

Nod y sesiwn yw helpu cydlynwyr diogelu deall eu cyfrifoldebau a bod yn fwy ymwybodol o gynnwys y polisi diogelu.

Mae diogelu yn ataliol ac yn amddiffynnol, gyda'r nod o greu amgylchedd diogel a chroesawgar tra bod yn barod i ymateb i faterion yn effeithiol. Pwysleisir hyn yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Mae'r ddogfen diwinyddiaeth o ddiogelu gan thirtyone:eight yn disgrifio diogelu fel cwmpawd arweiniol i'r eglwys, gan sicrhau ei bod yn parhau i ganolbwyntio ar amddiffyn unigolion agored i niwed a chymryd camau adeiladol i leihau risgiau.

Mae rôl y cydlynydd diogelu yn cynnwys gweithio i wneud y polisi diogelu yn realiti yn eu lleoliad. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau arferion recriwtio mwy diogel, cadw cofnodion o wiriadau DBS, a chodi ymwybyddiaeth am ddiogelu o fewn yr eglwys. Y Swyddog Diogelu'r Panel yw'r person diogelu dynodedig a dylid cael gwybod am yr holl bryderon neu honiadau sy'n gysylltiedig â'r eglwys, gan gynnwys pryderon lefel isel.

***NI DDISGWYLIR I GYDLYNWYR FOD YN ARBENIGWYR MEWN AMDDIFFYN PLANT NEU OEDOLION. BYDD Y PANEL A'R ASIANTAETHAU STATUDOL YN DARPARU ARWEINIAD A CHEFNOGAETH.***

## 1.POLISI AC ADNODDAU DIOGELU

1. Y Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus yw ein polisi diogelu. Mae'r polisi yn helpu i greu amgylchedd eglwysig mwy diogel, dilyn egwyddorion arfer da, bodloni gofynion y Comisiwn Elusennau a'r cwmniau yswiriant, ac yn darparu canllawiau ar gyfer ymateb i bryderon. Dylai eglwysi arddangos y datganiad polisi diogelu yn lleol.
2. Mae llawer o adnoddau diogelu defnyddiol ar gael ar wefan y panel, gan gynnwys y llawlyfr, y llyfryn hyfforddi, ac offer ar-lein fel ffurflenni recriwtio, ffurflenni asesu risg a rhestr wirio diogelu. Mae yna bosteri a chardiau i helpu i rannu negeseuon allweddol.
3. Mae'r Panel yn darparu cymorth yn ystod y dydd trwy ei Swyddog Diogelu, a gwasanaethau y tu allan i oriau gan thirtyone eight.

## 2. RECRIWTIO MWY DIOGEL A GWIRIADAU DBS

1. Mae' r broses recriwtio fwy diogel yn cynnwys ffurflenni cais gwirfoddolwyr, ffurflenni hunan-ddatganiad, sgyrsiau anffurfiol am y rôl, gwiriadau DBS, geirda, a hyfforddiant.
2. Gellir dod o hyd i wybodaeth am gymhwysedd DBS a'r broses ymgeisio ar dudalen DBS ein gwefan neu yn Adran 2 o'r llawlyfr.
3. Mae gwiriadau DBS manwl(enhanced) gyda gwiriad o'r rhestr gwahardd yn orfodol ar gyfer unigolion sy'n wneud gweithgareddau rheoleiddir gyda phlant neu oedolion agored i niwed, e.e. gofal personol, neu weithgareddau heb oruchwyliaeth gyda phlant. Efallai y bydd y rhai nad ydynt yn wneud gweithgaredd rheoleiddir, ond sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a / neu oedolion agored i niwed, yn gymwys i wneud gwiriad DBS heb gwirad o'r rhestr gwahardd. Bydd y siartiau llif yn eich helpu i ddeall pwy sy'n gymwys.
4. Cadw cofnodion cyfrinachol o ddyddiadau DBS, sicrhau bod gwirfoddolwyr newydd yn cwblhau cais a bod adnewyddiadau yn digwydd bob pedair blynedd.

## 3. YMATEB I BRYDERON A HONIADAU DIOGELU

1. Rhaid i gydlynwyr roi gwybod am yr holl bryderon neu honiadau diogelu i'r Swyddog Diogelu'r Panel yn brydlon a dylent gysylltu â'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol mewn argyfwng. Mae manylion y broses adrodd i'w gweld ar ein cerdyn maint poced
2. Rhaid cadw nodiadau manwl o achosion neu bryderon yn gyfrinachol, a bydd y Panel yn cynghori ar yr hyn sydd angen ei gadw'n lleol.
3. Bydd angen cwblhau asesiadau risg manwl ar gyfer troseddwyr hysbys sy'n ceisio ymuno â'r eglwys. Fel arfer bydd hyn yn cynnwys cytundeb ymddygiad. Bydd swyddog diogelu'r Panel yn eich arwain a'ch cefnogi drwy'r broses hon sydd fel arfer mewn cydweithrediad ag asiantaethau statudol fel yr heddlu neu wasanaethau prawf.
4. Anogir cydlynwyr i gysylltu â'r Panel am gyngor a chymorth pryd bynnag y bo angen.

## 4. HYFFORDDIANT A CHODI YMWYBYDDIAETH

1. Mae'r Panel yn darparu hyfforddiant Lefel 1 i wirfoddolwyr (2.5 awr) a Lefel 2 i weinidogion ac arweinwyr.
2. Rydym yn argymell bod pob gweithiwr a gwirfoddolwyr grŵpiau bregus hefyd yn cwblhau'r cwrs e-ddysgu Grŵp A ar-lein yn ogystal â mynychu cyrsiau Panel. Datblygwyd y cwrs gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae'n am ddim.
3. Mae cynnal Gwasanaeth Sul Diogelu blynyddol yn ffordd da o godi ymwybyddiaeth gadarnhaol o ddiogelu ymhlith aelodau'r eglwys ac annog cyfranogiad mewn rolau diogelu a hyfforddiant.
4. Dylai diogelu fod ar yr agenda mewn gyfarfodydd busnes neu blynyddol yn yr eglwys ac argymhellir hunanasesiad diogelu blynyddol.

## 5. BETH NESAF?

1. Ydych chi wedi cael golwg ar y llawlyfr diogelu a'r llyfryn Creu Eglwys fwy diogel?
2. A yw'r holl bobl sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed, wedi gwneud gwiriad DBS os ydynt yn gymwys i wneud?
3. A oes gennych gofnod cyfrinachol o'r holl wirfoddolwyr, gan nodi dyddiadau gwiriadau DBS a sicrhau bod adnewyddiadau wedi'u cwblhau.
4. Ydych eich gwirfoddolwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu Lefel 1?
5. A yw'r datganiad polisi diogelu yn cael ei arddangos yn eich eglwys?
6. Ydych chi wedi cynnal hunanasesiad diogelu Atodiad 10
7. Beth am annog eich Eglwys i gymryd rhan yn Sul Diogelu i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu?
8. Peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'r Panel am gyngor neu i drafod unrhyw bryderon.